

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Quayside Orthodontics, Neyland,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 21 Mai 2025

Dyddiad cyhoeddi: 21 Awst 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Quayside Orthodontics, Neyland, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 21 Mai 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 29 o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd 6 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel claf. Roedd systemau cyfathrebu effeithiol yn galluogi'r cleifion i gyfathrebu â'r clinigwyr mewn ffordd a oedd yn addas iddynt. Fodd bynnag, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn y practis.

Gwnaethom nodi bod y practis yn cefnogi hawliau unigolion ac yn eu trin yn gyfartal ac roedd y cleifion yn cael gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn. Roedd y staff yn cwblhau hyfforddiant penodol i ddiogelu hawliau'r cleifion, yn ogystal â hyfforddiant ar atal achosion o aflonyddu.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r rheolwr cofrestredig weithio gyda'r bwrdd iechyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith yn llawn
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod anghenion iaith a chyfathrebu'r cleifion yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd apwyntiadau yn cael eu rheoli'n effeithiol er mwyn gallu gweld cleifion mewn modd amserol ac ar amser sy'n addas iddynt
- Roedd y practis yn cefnogi hawliau unigolion ac yn eu trin yn gyfartal.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod wedi'i addurno i safon dda. Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn drefnus ac yn addas at y diben. Roedd ardal ddihalogi benodedig â systemau addas ar gyfer dihalogi offer deintyddol aml dro. Gwelsom fod yr holl gyfarpar clinigol yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Roedd cofnodion clinigol yn cael eu cynnal i safon addas. Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r manylion a gedwir yng nghofnodion orthodontig cleifion.

Roedd polisïau a gweithdrefnau addas ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Gwelsom fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y cyfarpar brys ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddulliau adfywio brys.

Roedd y clinigwyr yn darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion eu cleifion ac roeddent yn symud yn effeithiol ar hyd y llwybrau trin.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff archwiliadau o feinwe meddal, y tu fewn a'r tu allan i'r geg, yn ogystal â phrosesau sgrinio am ganser y geg, eu cynnal a'u cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis wedi'i orffen yn dda a'i gadw mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan
- Roedd y gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn gynhwysfawr
- Roedd y trefniadau diogelu ar gyfer amddiffyn pobl agored i niwed i gyd yn addas.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig, yn wybodus ac yn cefnogi ei gilydd. Roedd strwythurau rheoli clir yn helpu i gefnogi'r broses o redeg y practis yn effeithiol, gan alluogi'r staff i ddarparu gofal effeithiol i'r cleifion.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn gwybod â phwy i siarad pe bai angen help neu gymorth arnynt ac roeddent yn teimlo'n hyderus yn eu rolau. Roedd yr hyfforddiant yn cael ei oruchwylio gan reolwr y practis a gwelsom dystiolaeth bod y staff yn cael eu sefydlu a bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal bob blwyddyn. Dywedodd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur staff AGIC fod ganddynt gydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.

Roedd y gweithgareddau gwella ansawdd yn gynhwysfawr a gwnaethant helpu i gymell gwelliant parhaus drwy'r gwasanaeth. Roedd gan y practis gydberthynas â gwasanaethau gofal iechyd lleol eraill.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom gydberthnasau gwaith da ymysg y staff ac amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis
- Roedd y system a oedd ar waith i gasglu adborth gan gleifion ac i ymateb i'r adborth hwnnw yn gadarn
- Gwelsom fod cydymffurfiaeth lawn â'r holl ofynion hyfforddiant gorfodol a bod cofnodion o rwymedigaethau proffesiynol y staff yn gyflawn hefyd.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd yr holl ymatebwyr ond un yn cytuno bod y gwasanaeth a ddarperir yn ‘dda iawn’.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Maen nhw wedi fy helpu i i gael y wên rwyf wedi bod yn ysu amdani ers blynyddoedd. Rwy'n gwerthfawrogi hynny'n fawr iawn!”

“Mae'r staff i gyd yn gyfeillgar iawn ac yn hawdd siarad â nhw pan fydd angen atebion i'm cwestiynau. Gwnaethant le i mi yn gyflym iawn pan oedd angen. Maent wedi darparu gwasanaeth gwych drwy'r daith gyfan i gael sythwr dannedd”

“Staff cyfeillgar, yn barod iawn eu cymwynas. Amgylchedd glân”

“Staff hyfryd sydd wrth law bob amser i ateb unrhyw gwestiwn. Darparwyd gwasanaeth safon aur ar hyd fy nghynllun trin”

“Staff proffesiynol iawn, cyfeillgar a pharod i helpu”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod lefel addas o wybodaeth a chynghor ar gael i'r cleifion mewn perthynas â chynnal iechyd y geg ac iechyd deintyddol pediatriig da. Roedd datganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion y practis ar gael i'r cleifion eu gweld yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd y ffioedd ar gyfer gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat yn cael eu harddangos yn glir yn ardaloedd aros y cleifion. Roedd enwau'r ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos. Roedd oriau agor y practis a manylion cyswllt mewn argyfwng i'w gweld yn glir ar y drws ffrynt.

Roedd pob un o'r cleifion a wnaeth ymateb i holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir ar sut i gynnal iechyd y geg da. Nododd pob un o'r ymatebwyr ond un bod eu hiechyd y geg yn cael ei esbonio iddynt mewn modd y gallent ei ddeall.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y practis yn darparu gofal urddasol a pharchus i'r cleifion drwy gydol eu taith fel claf. Roedd unrhyw gleifion a oedd yn dymuno cael sgwrs gyfrinachol â'r staff yn cael eu hebrwng i ddeintyddfa wag neu swyddfa y tu ôl i'r dderbynfa er mwyn atal pobl eraill rhag clywed eu sgysiau.

Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch. Ar y cyfan, roedd yr adborth ysgrifenedig a gawsom yn llawn clod i'r staff a'r ffordd roeddent yn trin cleifion.

Roedd y dderbynfa a'r ardaloedd aros wedi'u huno, a dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn ailadrodd gwybodaeth gyfrinachol dros y ffôn. Roedd gwydr barugog o flaen pob ystafell glinigol fel nad oedd modd gweld cleifion yn cael eu trin. Roedd cytundebau cyfrinachedd yn rhan o gontractau'r staff ac roedd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu gwybodaeth i gleifion. Gwelsom fod y Naw Egwyddor a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn y dderbynfa.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pawb ond un a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, y costau a gwybodaeth am y risgiau a'r manteision. Teimlai'r rhan fwyaf o'r staff a wnaeth ymateb i holiadur AGIC (4/6) bod cleifion yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys yn y penderfyniadau am eu triniaeth.

Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion (23/27) eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon ar ôl triniaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion (26/28) hefyd yn cytuno eu bod wedi cael canllawiau addas ar yr hyn y dylid ei wneud yn achos haint neu argyfwng.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod proses rheoli apwyntiadau addas ar waith i ddefnyddio amser yr ymarferwyr yn briodol. Byddai cleifion yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb ar ôl eu hapwyntiadau. Roedd system gwneud apwyntiadau ar-lein ar gael ond nid yw'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd. Rhoddodd y staff wybod i ni oherwydd y math o ddeintyddiaeth orthodontig a oedd yn cael ei chynnal yn y practis hwn, mai prin yr oedd apwyntiadau'n rhedeg yn hwyr. Fodd bynnag, pe bai apwyntiad yn mynd y tu hwnt i'r amser a drefnwyd, byddai'r clinigwyr yn ffonio'r dderbynfa i roi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi. Byddai'r cleifion hefyd yn cael

gwybod am oedi wrth gyrraedd ac yn cael cynnig apwyntiadau amgen lle y gofynnir am hynny.

Gwelsom fod system brysbennu cleifion dros y ffôn briodol ar waith i sicrhau bod y rheini yr oedd angen gofal brys arnynt fwyaf yn cael eu blaenoriaethu. Roedd y rhan fwyaf o'r argyfyngau yn addasiadau orthodontig yn hytrach na heintiau, poen neu chwydd. Gwelsom fod amser wedi'i drefnu yn y dyddiadur bob dydd ar gyfer apwyntiadau brys, a dywedodd y staff wrthym na fyddai unrhyw glaf yn gorfod aros mwy na 24 awr i gael ei weld. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC (22/29) y byddent yn gwybod sut i gael gafeal ar ofal deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Dywedodd y staff wrthym ar y cyfan nad oedd cleifion yn aros mwy na phythefnos i gael eu gweld fel claf newydd. Fel rheol, byddai cleifion sy'n bodoli yn mynychu apwyntiadau trin ar ôl chwech i wyth wythnos. Lle y bo'n bosibl, roedd apwyntiadau yn cael eu trefnu'n unol ag argaeledd y cleifion. Roedd system ar waith i gleifion pediatriig gael apwyntiadau ar amser a oedd fwyaf addas ar gyfer eu hanghenion addysgol. Nododd y rhai a ymatebodd i arolwg AGIC i gleifion eu bod wedi ei chael hi'n 'hawdd iawn' (22/29) neu'n 'eithaf hawdd' (5/29) cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Ar y cyfan, roedd yr holl adborth ysgrifenedig a gawsom gan gleifion yn gadarnhaol, ond dywedodd un claf:

“Gan mai dim ond yn rhan-amser mae'r gangen yn Sir Benfro ar agor, rydym wedi cael trafferth cysylltu a threfnu am nad yw'r negeseuon ar y peiriant ateb yn cael eu gwirio”

Trafodwyd y mater hwn â'r practis yn dilyn yr arolygiad. Cawsom wybod bod y gwasanaeth peiriant ateb yn cael ei wirio bob dydd a chysylltir ag unrhyw gleifion ar yr un diwrnod ag y mae'r staff yn gwrando arno. Yn ogystal, os oes mater brys, caiff y cleifion eu hannog i gysylltu â'r rhif ffôn ar gyfer y chwaer bractis yng Nghaerfyrddin. Ar y diwrnodau y mae practis Neyland ar gau, caiff pob galwad ffôn ei throsglwyddo'n awtomatig i bractis Caerfyrddin ei hateb.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau cefnogol ar waith er mwyn sicrhau bod dulliau cyfathrebu effeithiol rhwng y clinigwyr a'r cleifion. Roedd llinell iaith yn cael ei defnyddio i gyfathrebu â chleifion pan oedd angen, ac roedd adnoddau cyfieithu ar-lein wedi'u defnyddio'n ddiweddar wrth ddarparu gofal iechyd i ffoaduriaid o Wcráin. Roedd rhywfaint o wybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau gwahanol, gyda gwybodaeth fwy arbenigol yn cael ei darparu ar gais gan gleifion. Fodd bynnag, ni

welsom unrhyw dystiolaeth i nodi bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi yn y sampl o saith o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod anghenion iaith a chyfathrebu'r cleifion yn cael eu cofnodi er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn cael gofal priodol.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg â chleifion. Roedd hyn yn cynnwys y staff oedd yn gwisgo bathodynau 'laith Gwaith' i ddangos eu galluoedd siarad Cymraeg i gleifion. Cawsom wybod bod y clinigydd arweiniol wrthi'n cwblhau cwrs Cymraeg. Roedd rhywfaint o ddogfennaeth y practis ar gael yn Gymraeg, megis y datganiad o ddiben a'r weithdrefn gwyno. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth a oedd i'w gweld neu a oedd ar gael ar gyfer cleifion sy'n siarad Cymraeg yn gyfyngedig.

Dylai'r rheolwr cofrestredig weithio gyda'r bwrdd iechyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith yn llawn.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn cefnogi hawliau unigolion ac yn eu trin yn gyfartal. Gwelsom bolisiau priodol a oedd yn amlinellu sut roedd y practis yn cefnogi hawliau'r cleifion a'r staff yn ogystal â pholisi dim goddefgarwch i aflonyddu addas. Gwelsom yn y cofnodion hyfforddiant fod y staff yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant penodol er mwyn diogelu hawliau'r cleifion, yn ogystal â hyfforddiant ar atal achosion o aflonyddu neu wahaniaethu.

Gwnaethom nodi bod asesiadau risg yn cael eu cynnal i'r aelodau o staff sy'n defnyddio sgriniau arddangos, a bod newidiadau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd fel addasiad rhesymol, lle y bo angen. Roedd y rhain yn cynnwys darparu troedfeinciau i'r staff a oedd yn cyflawni dyletswyddau wrth ddesgiau. Roedd cleifion ag unrhyw anghenion ychwanegol yn cael cymorth penodol i ddefnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys cloch alw i gleifion yr oedd angen help arnynt i fynd i mewn i'r adeilad. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod yr adeilad yn hygyrch.

Roedd hawliau cleifion yn cael eu cynnal ymhellach drwy eu galluogi i ddewis y rhagenwau, yr enwau a'r rhywedd a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw fath o wahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod y practis wedi'i orffen yn dda a'i gadw mewn cyflwr da y tu fewn a'r tu allan, gan alluogi ar gyfer darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur staff AGIC fod yr amgylchedd yn briodol i sicrhau bod cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt. Dywedodd pob un a ymatebodd hefyd fod ganddynt y cyfleusterau priodol i gyflawni eu rolau.

Roedd y practis wedi'i leoli ar un llawr, gyda mynediad gwastad drwyddo a thair deintyddfa o faint priodol. Roedd gan yr ystafell aros nifer rhesymol o seddau ar gyfer y cleifion oedd yn ymweld â'r lleoliad. Clywsom y llinellau ffôn yn gweithio'n effeithiol a gwelsom fod ardaloedd newid addas â loceri ar gael i'r staff. Gwelsom fod toiledau'r staff a thoiledau'r cleifion yn lân ac yn cynnwys digon o gyfarpar.

Roedd y cyfarpar deintyddol oedd yn cael ei ddefnyddio gan y practis mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio. Roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol.

Roedd polisïau a gweithdrefnau addas ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Roedd asesiadau risg diweddar wedi cael eu cynnal ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch ac roeddent yn gynhwysfawr. Gwelsom dystiolaeth fod profion wedi'u cynnal ar offer cludadwy yn ddiweddar. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur staff AGIC fod y practis yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau.

Wrth edrych ar y cyfarpar diogelwch tân a'r wybodaeth am ddiogelwch tân, gwelsom fod trefniadau cadarn a chynhwysfawr ar waith. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys cynnal a chadw a phrofi'r cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd, ochr yn ochr ag arddangos arwyddion diogelwch tân a dim smygu yn glir.

Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr y practis a phoster gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael eu harddangos yn yr ystafell i staff.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau priodol ar waith i gynnal lefel dda o lendid ac amgylchedd gwaith diogel. Dywedodd y rhai a ymatebodd i holiadur staff AGIC fod amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn y practis. Gwelsom fod

yr holl gyfarpar a'r amgylchedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n foddhaol fel bod modd eu glanhau a'u dihalogi'n effeithiol.

Cadarnhaodd pob un a ymatebodd i holiadur staff AGIC fod y sefydliad yn gweithredu polisi atal a rheoli heintiau effeithiol. Dywedodd yr ymatebwyr wrthym hefyd fod amgylchedd y practis yn caniatáu arferion atal a rheoli heintiau a dihalogi effeithiol.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y practis yn 'lân iawn' (28/29) neu'n 'eithaf glân' (1/29). Cadarnhaodd pob un o'r cleifion hefyd fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu cymryd gan staff drwy'r amser (26/27) neu weithiau / yn rhannol (1/27).

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael fel mater o drefn i bob aelod o'r staff, ac roedd yr holl weithdrefnau ac arwyddion mewn perthynas â hylendid dwylo yn addas. Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gael i bob aelod o'r staff ac roedd asesiadau risg priodol ar waith i fonitro'r risg o niwed o ganlyniad i anafiadau a achosir gan offer miniog. Cadarnhaodd pob un a ymatebodd i holiadur staff AGIC eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael iddynt. Hefyd, dywedodd yr ymatebwyr bod Cyfarpar Diogelu Personol priodol ar gael iddynt. Roedd y trefniadau hyn yn golygu bod modd darparu gofal diogel i'r cleifion gan sicrhau diogelwch y staff ar yr un pryd.

Gwelsom fod mesurau addas ar waith i sicrhau bod cyfarpar aml dro yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n briodol yn ystafell ddihalogi'r practis. Gwelsom gofnodion priodol a oedd yn dangos bod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal o gylchredau'r peiriant awtoclaf a bod amserlen o waith cynnal a chadw rheolaidd ar waith. Cynhaliwyd gwiriadau wythnosol ar y baddon uwchsain a gwiriadau dyddiol ar yr awtoclaf. Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant y gwnaethom edrych arnynt fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant boddhaol ar ddihalogi'r cyfarpar yn gywir.

Gwelsom fod y broses ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol. Roedd holl wastraff y practis yn cael ei storio a'i waredu'n gywir drwy gontract gwaredu gwastraff addas.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom nodi nad oedd meddyginiaethau arferol yn cael eu storio na'u dosbarthu gan y practis hwn. Fodd bynnag, roedd trefniadau ar waith ar gyfer trin, storio, defnyddio a gwaredu unrhyw feddyginiaethau brys yn ddiogel lle y bo'n briodol. Roedd yr oergell a ddefnyddir i storio meddyginiaethau yn cael ei rheoli'n gywir ac roedd gwiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi'n addas.

Gwelsom fod mesurau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd cofnodion y staff yn dangos bod pob un ohonynt yn meddu ar gymwysterau boddhaol ym maes adfywio cardiopwlmonaidd a bod nifer addas o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Wrth archwilio'r cyfarpar brys, gwelsom fod yr holl eitemau yn bresennol, yn hawdd cael gafael arnynt ac o fewn eu dyddiadau defnyddio. Gwnaethom nodi bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r holl gyfarpar brys.

Roedd silindrau ocsigen yn cael eu gwasanaethu'n briodol ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant i'w defnyddio.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd y gweithdrefnau diogelu a welsom yn gynhwysfawr ac yn galluogi ar gyfer diogelu plant ac oedolion. Roedd y gweithdrefnau'n cynnwys manylion cyswllt ar gyfer gwasanaeth cymorth lleol ac yn enwi arweinydd diogelu. Roedd Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan ar gael i staff y practis. Roedd unrhyw ddiweddariadau i'r gweithdrefnau yn cael eu rhannu â'r practis drwy'r bwrdd iechyd ac roedd unrhyw newidiadau yn cael eu rhannu â'r staff drwy e-bost neu drwy gyfarfodydd tîm.

Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant addas ar ddiogelu plant ac oedolion. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn deall y gweithdrefnau diogelu gan ddweud y byddent yn gwybod sut i godi pryder ac y byddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i wneud hynny.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol mewn cyflwr da ac yn addas at y diben, a oedd yn caniatáu ar gyfer darparu gofal diogel i gleifion. Gwelsom fod cyfarpar deintyddol aml dro yn cael ei ddefnyddio mewn modd sy'n hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus wrth ddefnyddio'r cyfarpar a dywedodd pob un a ymatebodd i'r holiadur staff fod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i gyflawni eu gwaith. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer gwasanaethu'r holl gyfarpar ac ar gyfer ymateb yn gyflym i fethiant system cyfarpar.

Roedd ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis ar gael ac wedi cael ei gwblhau'n fras. Fodd bynnag, roedd y practis yn symud o system bapur i un ddigidol, gyda rhai rhannau wedi'u gadael yn wag yn y fersiwn ddigidol. Cafodd hyn ei ddatrys yn gyflym gan staff ar ddiwrnod yr arolygiad ond nid oedd yn peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion.

O fewn cofnodion y cleifion, nododd y clinigwyr fod cleifion yn cael eu hysbysu mewn modd addas am risgiau a manteision ymbelydredd a gwelsom fod

cysylltiadau ag ymbelydredd yn cael eu nodi'n gywir yng nghofnodion y cleifion. Gwelsom fod y rheolau lleol yn cael eu harddangos ym mhob deintyddfa. Roedd y cofnodion hyfforddiant a welsom yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rolau.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis o anghenion cleifion yn ddiogel. Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol, ac yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol.

Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau yn y practis ac roeddent hefyd yn gwybod pryd i geisio cyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i gofnodi bod y cleifion yn deall y gweithdrefnau ac yn cydsynio iddynt.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o saith claf yn ystod ein harolygiad. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw ar system ddigidol ddiogel, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn gofnod cyflawn o'r triniaethau orthodontig a ddarperir i'r cleifion ar y cyfan. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd archwiliadau o feinwe meddal, a'r tu fewn a'r tu allan i'r geg yn cael eu cofnodi fel mater o drefn. Yn ogystal, ni welsom fod prosesau sgrinio am ganser y geg yn cael eu cofnodi. Er y cydnabyddir bod pob un o'r cleifion sy'n mynd trwy'r practis hwn wedi'u hatgyfeirio gan eu deintyddion eu hunain lle y gallai'r archwiliadau hyn gael eu cynnal, mae'n bwysig cynnwys y rhain yn archwiliadau'r clinigwyr a'u cofnodi mewn modd priodol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff archwiliadau o feinwe meddal, y tu fewn a'r tu allan i'r geg, yn ogystal â phrosesau sgrinio am ganser y geg eu cynnal a'u cofnodi.

Cadarnhaodd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hanes meddygol yn cael ei wirio cyn unrhyw driniaeth.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn darparu gwasanaeth boddhaol i ddiwallu anghenion eu cleifion ar safle addas. Aeth y cleifion trwy lwybrau trin mewnol yn effeithlon a phan gawsant eu hatgyfeirio, ymdriniwyd yn effeithlon â nhw. Gwelsom fod yr apwyntiadau hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol o ganlyniad i gymysgedd priodol o sgiliau a phroses trefnu apwyntiadau a brysbennu gadarn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Roedd yr ymatebion i holiadur staff AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd yr holl staff y byddent yn argymhell y lleoliad fel lle da i weithio ac y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir pe bai angen gofal deintyddol ar eu ffrindiau neu berthnasau yn y practis.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Gwnaethom nodi bod strwythur rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Esboniodd rheolwr y practis ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi i gyflawni ei rôl arwain yn effeithiol. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob mis ac roedd pob aelod o'r staff yn bresennol ynddynt. Wrth edrych ar gofnodion y cyfarfodydd staff, gwnaethom nodi trafodaethau addas am faterion staffio, atal a rheoli heintiau ac iechyd a diogelwch.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus ac yn cefnogi ei gilydd. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt hyder yn y rheolwyr ac y byddent yn gwybod â phwy i siarad pe bai angen help neu gymorth arnynt.

Gwelsom fod datganiad o ddiben y practis yn gyfredol ac ar gael i gleifion. Nid oedd copi diweddar wedi'i gyhoeddi i AGIC; fodd bynnag, rhoddodd y practis hwn ar waith ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd adnodd cydymffurfiaeth ar-lein addas yn cael ei ddefnyddio i nodi, cofnodi a rheoli'r risgiau, y materion a'r ffactorau lliniaru.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom gydberthnasau gwaith da ymysg y staff ac amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis. Clywsom sut roedd y staff yn ymgymryd â gweithgareddau adeiladu tîm yn rheolaidd ac yn cydweithredu â'u partner bractis yng Nghaerfyrddin. Roedd y gweithgareddau y clywsom amdanynt yn helpu i adeiladu tîm cryfach ac yn ei dro, yn trosglwyddo buddiannau gweithio fel tîm cryfach i gleifion. Dywedodd yr unigolion a ymatebodd i holiadur staff AGIC wrthym fod y practis yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant a bod eu patrwm gweithio presennol yn sicrhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.

Roedd system briodol ar waith i sicrhau bod nifer addas o staff cymwysedig yn gweithio ar unrhyw adeg benodol. Roedd trefniadau cynhwysfawr a chefnogol hefyd ar waith ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys rhoi amser i ffwrdd i'r staff er mwyn iddynt gwblhau hyfforddiant a'r cyllid oedd ar gael i staff fynychu hyfforddiant neu gynadleddau sy'n berthnasol i'w rolau. Dywedodd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl.

Gwnaethom edrych ar 5 o'r 11 o gofnodion staff, a gwelsom gydymffurfiaeth lawn â'r holl ofynion o ran hyfforddiant gorfodol. Gwelsom hefyd enghreifftiau o arferion da, gydag aelodau unigol o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ychwanegol perthnasol uwchlaw'r disgwyliadau gorfodol. Roedd system addas ar waith i fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant a galluogi'r staff i gael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar gyfer eu rolau.

Esboniodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad y byddent yn gwybod beth i'w wneud a phwy i siarad â nhw pe byddai ganddynt bryder am y ffordd roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu, triniaethau neu drefniadau rheoli. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i roi arweiniad ar sut y gall y staff godi pryderon.

Roedd trefniadau addas ar waith i fonitro a chynnal rhwymedigaethau proffesiynol y staff hynny a oedd yn gweithio yn y practis o'r adeg y gwnaethant ddechrau gweithio yno. Roedd pob un o'r cofnodion staff a welsom yn gwbl gyflawn, gan gynnwys cofrestriadau cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau geirdaon cyn cyflogi cynhwysfawr. Roedd y rheolwyr yn goruchwylio'r broses o sefydlu aelodau newydd o staff drwy bolisi recriwtio priodol a rhestr wirio fanwl ar gyfer y cyfnod sefydlu mewn modd cefnogol. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o staff a oedd wedi bod yn ei swydd ers dros flwyddyn yn cael arfarniad blynyddol.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd system addas ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Gwelsom flwch argymhellion yn yr ardal aros ac roedd adolygiadau gwasanaeth cwsmeriaid hefyd yn cael eu hanfon at gleifion i'w cwblhau yng nghanol eu taith am driniaeth orthodontig. Roedd rheolwr y practis yn adolygu adborth yn rheolaidd ac yn ei drafod yn ystod cyfarfodydd y practis. Roedd ymatebion i adborth i'w gweld yn ardal y dderbynfa ar hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni'. Rhoddwyd gwybod i ni fod arolygon cleifion blynyddol hefyd yn cael eu cynnal.

Roedd y polisi cwynion yn cyd-fynd yn llawn â gweithdrefnau Gweithio i Wella'r GIG ac roedd gwybodaeth amdano ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros. Roedd y weithdrefn gwynion i gleifion yn cynnig pwynt cyswllt wrth wneud cwyn. Byddai unrhyw gwynion llafar yn cael eu cofnodi a'u rhannu â'r pwynt cyswllt ar gyfer cwynion mewn modd amserol i'w datrys. Roedd y dull o uwchgysgu cwyn wedi'i nodi yn y daflen gwyno i gleifion, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC a'r gwasanaeth eirioli dros gleifion, Llais.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau proffesiynol mewn perthynas â chwynion a Dyletswydd Gonestrwydd y GIG. Er nad oedd cofnodion o unrhyw gwynion diweddar na digwyddiadau yn ymwneud â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, cawsom sicrwydd fod y prosesau a oedd ar waith yn gadarn.

Dangosodd yr ymatebwyr i holiadur staff AGIC ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau proffesiynol mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn gwybod ac yn deall eu rôl fel rhan o'r Ddyletswydd Gonestrwydd a bod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod i gleifion pan oedd rhywbeth wedi mynd o'i le.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod dull rhagweithiol o wella ansawdd ar waith a bod yr holl weithgareddau gwella gorfodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau cynhwysfawr a rheolaidd o gofnodion cleifion, rhagnodi gwrthficrobaidd, gwastraff gofal iechyd ac archwiliadau atal a rheoli heintiau. Roedd y practis yn aelodau 'Arbenigol' o Gymdeithas Ddeintyddol Prydain ac roedd wedi cwblhau gweithgareddau gwella ansawdd arferol drwy'r aelodaeth hon er mwyn cymell gwelliannau parhaus. Roedd y practis hefyd yn archwilio meysydd eraill nad oedd yn orfodol eu harchwilio, fel amseroedd aros i gleifion, er mwyn gallu rhannu'r gwersi a ddysgwyd a gwella'r broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Esboniodd y staff sut roeddent yn cynnal cydberthnasau gwaith da gyda'u bwrdd iechyd lleol a gwasanaethau gofal sylfaenol eraill, gan gynnwys y meddyg teulu lleol. Gwelsom fod proses briodol ar waith i olrhain unrhyw atgyfeiriadau a wnaed at ddarparwyr gwasanaethau eraill.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Quayside Orthodontics, Neyland

Dyddiad yr arolygiad: 21 Mai 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Quayside Orthodontics, Neyland

Dyddiad yr arolygiad: 21 Mai 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni welsom unrhyw dystiolaeth a oedd yn nodi bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi yn unrhyw un o'r sampl o saith o gofnodion a welsom.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod anghenion iaith a chyfathrebu'r cleifion yn cael eu cofnodi er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn cael gofal priodol.	Adran 13(1) (a), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Gofynnir i bob claf yn ei apwyntiad cyntaf a fyddai'n well ganddo sgwrsio yn y Gymraeg neu yn Saesneg a bydd hyn yn cael ei gofnodi yn ei nodiadau.	Dr Rebecca Davies	Ar unwaith
2. Roedd rhywfaint o ddogfennaeth y practis ar gael yn Gymraeg, megis y datganiad o ddiben a'r weithdrefn gwyno. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth a oedd i'w gweld neu a oedd ar gael ar gyfer	Dylai'r rheolwr cofrestredig weithio gyda'r bwrdd iechyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith yn llawn.	Adran 13(1) (a), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Bydd mwy o'n dogfennau yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg.	Dr Rebecca Davies	3 mis.

	cleifion sy'n siarad Cymraeg yn gyfyngedig.					
3.	Gwnaethom nodi nad oedd archwiliadau o feinwe meddal, a'r tu fewn a'r tu allan i'r geg yn cael eu cofnodi fel mater o drefn yn nodiadau'r cleifion. Yn ogystal, ni welsom fod prosesau sgrinio am ganser y geg yn cael eu cofnodi.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff archwiliadau o feinwe meddal, y tu fewn a'r tu allan i'r geg, yn ogystal â phrosesau sgrinio am ganser y geg eu cynnal a'u cofnodi.	Adran 20(1), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Rydym wedi cael cyfarfod â'r holl staff clinigol ac rydym bellach wedi cynnwys nodyn wedi'i ffurfio ymlaen llaw yn y cofnodion clinigol i atgoffa'r Orthodeintyddion i gofnodi canfyddiadau'r archwiliad o feinwe meddal a'r profion sgrinio am ganser y geg yn yr apwyntiad ymgynghorol.	Dr Rebecca Davies	Wedi gweithredu eisoes.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Dr Rebecca Davies

Teitl swydd: Rheolwr y Practis/Deintydd

Dyddiad: 03/07/2025